

Cofion

Estynnwn ein cofion heddiw at Maria Jones (Groes) sy'n Ysbyty Abergele yn dilyn llaw-driniaeth. Hyderwn y bydda adre yn fuan, ac y bydd yn cryfhau. Cofiw'n hefyd am Gwenfyl Williams ac Elsa Evans (Llanefydd), a Menna Streeter sy'n yr Inffirmari. Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd, gan weddio y byddant yn adnabod ei gwmni, ei agosrwydd a'i ddaioni yn ystod y dyddiau hyn.

Hyn ag Arall

- Fe fydd Aneurin a minnau yn teithio o amgylch cartrefi preswyl yr wythnos ar ôl nesaf i'r diben o rannu cymundeb. Os oes rhywun yn dymuno cymundeb ar eu haelwyd, a fydddech cystal â gadael i mi, Aneurin neu Mair i wybod os gwelwch yn dda.
- Ar y dydd Mercher wedi'r Dolig, mi fydd yn amser inni fynd ar ein taith gerdded flynyddol. Rwy'n dweud ymlaen llaw, gan obeithio y byddwch yn cadw'r dyddiad yn wag, gan wybod y cewch gyfle i losgi ychydig o'r calorïau yna i ffwrdd!!!
- Mae nifer yn dal i holi am y llyfr – 'Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn'. Mae Aled Davies wedi dod â bocs arall yma, felly os hoffech un am bris gostyngol, gadewch imi wybod.
- Mae manylion Gwyliau Llanw 2010 wedi dod i law. Mae taflenni yn llaw eich ysgrifenyddion heddiw – beth am ymuno â ni i dreulio gwyliau yn Cei Newydd adeg y Pasg i ddathlu buddugoliaeth Iesu.

I ddod

- **Parti Plant yr Ysgol Sul**, Ymweliad Siôn Corn, a Ras Chwilod y Gymdeithas Lenyddol ar nos Fercher, Rhagfyr 22ain am 7.00 yn Festri Capel **Cefn Meiriadog**.
- **Gwasanaeth Plygain yn Llanefydd** ar noswyl Nadolig, Rhagfyr 24ain am 8.00.
- **Gwasanaeth Plygain** wedi ei drefnu gan y Gymdeithas yng Nghapel Bethania, **Llansannan** ar fore'r Nadolig am 7.00.
- Dydd Sul, Rhagfyr 26ain, cynhelir **Oedfa i'r Fro** yn Llanfair Talhaiarn am 10.00.
- **Swper Adnabod**, nos Fawrth yr 28ain o Ragfyr am 7.30. Mwy o wybodaeth gan **Haf Evans (582215)**
- Ar **lonawr 9fed**, bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn dod i gymryd llais pob eglwys yn y Fro ynglŷn â'n dymuniad i alw gweinidog. Ac yna, yn yr hwyr yn Oedfa'r Fro, mi fydd hi'n gyfarfod gollwng, i arwyddo diwedd fy nhymor yma fel gweinidog. Daw mwy o wybodaeth maes o law.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12^{fed} Rhagfyr 2010

Heno!!!

Iesu – Brenin y
Deyrnas Ddi-sigl

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Gweddïwn am ymweliad Duw ei hun i ganol ein hoedfaon, i ganol ein gwaith fel Eglwysi, i ganol ein bywydau fel pobl. Drwy'r cwbl, gweddïwn am ddiwrnod fydd yn dwyn gwerth tragwyddol i'n heneidiau.

Heno (nos lau), yr oeddwn yn siarad yn yr Undeb Gristnogol yn Neuadd Pantycelyn Aberystwyth. Daeth criw bach annwyl iawn o fyfyrwyr at ei gilydd i addoli ac i wrando ar y Gair, a wir, roedd yn hynod braf cael bod yn eu cwmni. Cofiwch, roedd yn brofiad digri sylweddoli fy mod yn adnabod rhieni rhain yn well na'r un ohonynt hwy bron!! Roedd bod yn yr ystafell yn fy atgoffa o'r cyfarfodydd oedd yn cael eu cynnal yno pan yr oeddwn ninnau yn fyfyrwr. Nos Sul oedd noson yr Undeb Gristnogol yr adeg honno, ac ar ôl dychwelyd o bregethu, byddwn yn gwneud pob ymdrech i fynychu'r cyfarfodydd, a chael gwledd o wrando ar weinidogion profiadol, a Christnogion eraill yn agor y Gair i minnau. Tebyg imi ddysgu mwy yn y cyfarfodydd hynny yn ystod y pedair blynedd yn y Coleg, na'r un pedair blynedd arall yn fy hanes fel Cristion. Ond, roedd mwy na'r cyfarfodydd hefyd. Roedd cwmni Cristnogion o'r un oed, roedd cyfarfodydd gweddi rhagorol, y cyfle i wneud ffrindiau, a'r cyfle hefyd i dystio i Iesu i gyd-fyfyrwyr.

Beth bynnag, y testun yr oedd y myfyrwyr wedi ei osod ar fy nghyfer heno oedd 'Y Drindod', a cheisiais amlinellu'r hyn sydd gan y Beibl i ddweud am ein Duw, yr Un Duw, sy'n bodoli mewn Tri Pherson. Nid dyma'r gwirionedd hawsaf i geisio ei esbonio, ac yn sicr d'oes dim digon o le ar y dudalen yma i wneud hynny. Ond dyna ni, diolch byth am Gristnogion ifanc sy'n awyddus i fynd y tu hwnt i'r syml er mwyn ceisio deall a chymhwysio pethau anoddach hefyd. Un o'r pethau sydd wedi fy nghalonogi'n rhyfeddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn arbennig yw awydd pobl ifanc i ddeall, i astudio'r Beibl, a gwrandao ar eraill yn esbonio'r Beibl. Yr ydym yn adnabod rhai o'r rhai gorau yn y Fro hon, gydag amryw ohonynt yn parhau i fod mewn cysylltiad â ni trwy DAWNCymru. Yn sicr, mae eu brwdfrydedd hwy yn her i bob un ohonom. Roedd gweld y criw heno yn dal ar bob gair yn her imi. Dydd Sadwrn, mi fydd yna griw yn treulio diwrnod cyfan yn ymestyn eu deall o'r Beibl, ac o oblygiadau ymarferol arwain yn y Gymru Gymraeg. Gweddïwch drostynt, y bydd Duw yn eu codi yn genhedlaeth gref a chyhyrog yn yr Efengyl. Gweddïwch y cawn adnabod cenhedlaeth newydd sydd yn mynd ymhellach nag yr aethon ni, yn gweld Iesu yn cael ei ddyrchafu mewn ffordd helaethach nag a welwyd yn ein cenhedlaeth ni.

Ar yr un pryd, ystyriwch eu hesiampl. Pwy ohonoch sydd am ddweud na ddylem ninnau hefyd fod yr un mod awyddus i astudio'r Beibl, i werthfawrogi cwmni Cristnogion, i fod gyda'r bobl yma mewn oedfa, mewn cwrdd gweddi, ac mewn ymdrechion i dystio'n ffyddlon i'r Iesu. Heno, mi fyddaf yn cloi ein cyfres ar yr Hebraeid drwy edrych ar 'Iesu – Brenin Teyrnas Ddi-sigl.' Beth am ddod i gael eich atgoffa o ogoniant Iesu, ac o'r her sy'n deillio o fyw yn ei deyrnas Ef?

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben, bydd Meirion yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llun Grwpiau **Adnabod** Aneurin, Elen a Mair yn cyfarfod am 8.00.

Mawrth **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn y Groes am 7.30

Mercher **Adnabod beth yw Cristnogaeth go iawn** yn Llanefydd am 8.00.

Iau **Cyfarfod Plant** ac ymarfer yn Llansannan am 3.15.

Astudiaeth Feiblaidd dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.

Sul nesaf Ni fydd **Oedfa i'r Fro**. (Bydd yr oedfa'r hwyr nesaf i'r Fro ar Ionawr 9fed.)

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Sul nesaf Gwasanaeth Nadolig i'r teulu a pharti i ddilyn i bawb yn Neuadd Goffa Llanfair Talhaiarn am 11.00. Yng Nghefn Meiriadog, bydd Ysgol Sul am 10.30 a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa am 2.00.

Llansannan

Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Iau Cinio Nadolig Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion yn y Ffestri ac ymarfer i'r plant yn y capel am 10.00, a bydd Gwasanaeth Nadolig y Plant yn y capel am 3.00, gyda pharti i ddilyn yn y Ganolfan.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yn Nantglyn am 10.00 ac yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd paned i ddilyn, ac yna cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma Bydd y Parch. Hugh Pritchard yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant yn y Groes am 10.30 a pharti i ddilyn. Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15 ac yng Nghefn Berain am 2.00.

Mawrth Myfyrdod y Nadolig o dan nawdd Cyfarfod y Chwiorydd yng Nghapel Cefn Berain am 7:00 yng nghwmni Mrs Laura Owen, Trefnant.

Sul nesaf Gwasanaeth Nadolig y Plant yng Nghefn Berain am 10.30 a pharti i ddilyn. Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Llanefydd gan blant yr Ysgol Sul (ond i bawb) am 11.00 ac yna, i ddilyn, bydd Cinio/Parti Nadolig yn y Neuadd.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i

Meirion - ✉ meirion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870601 📞 07554 005423

erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau